

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 45 (Ynysforgan) i
Gyffordd 46 (Llangyfelach),
Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50
mya Dros Dro) 2022

The M4 Motorway (Junction 45
(Ynysforgan) to Junction 46
(Llangyfelach), Swansea)
(Temporary 50 mph Speed Limit)
Order 2022

Gwnaed 8 Mehefin 2022

Made 8 June 2022

Yn dod i rym 12 Mehefin 2022

Coming into force 12 June 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd neu o ddifrod difrifol i'r ffordd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be restricted because of the likelihood of danger to the public or of serious damage to the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 45 (Ynysforgan) i Gyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2022.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 45 (Ynysforgan) to Junction 46 (Llangyfelach), Swansea) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2022 and this Order comes into force on 12 June 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw'r darn o draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o bwynt 395 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 (Ynysforgan) hyd at bwynt 227 o fetrau i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach), gan gynnwys y darnau o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 45 a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4.—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the length of the M4 London to South Wales motorway that extends from a point 395 metres east of the nosing of the westbound entry slip road at Junction 45 (Ynysforgan) to a point 227 metres west of the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 46 (Llangyfelach), including the lengths of the westbound entry slip road at Junction 45 and eastbound entry slip road at Junction 46.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the motorway specified in article 2 of this Order.

Application

4.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 4, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r draffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Mehefin 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the motorway specified in article 2 of this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 of this Order applies.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

8 June 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government